

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor - 8fed o Ebrill 2008.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr: T Les Jones (Cadair) – Nantlle; Harry Wyn Owen, Dafydd Glyn Owen – Talysarn; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Ifan Glyn Jones, Ann Vaughan Jones, Dyfed Edwards (Cyng Sir), Elwyn Jones-Griffith, Iwan Lloyd Williams – Penygroes. PC Gwyn Hughes Plismon Cymunedol Penygroes.

O'r drafodaeth gyda'r gwr gwadd, PC Gwyn Hughes, Penygroes, hysbyswyd y Cyngor bod gan Gwyn ddefnydd o gar bob yn ail wythnos bellach. Keith Ellis fydd yr Arolygwr newydd i Gaernarfon, Geraint Anwyl Williams fydd yr Arolygwr Adran (Divisional inspector). Bydd y sesiynnau 'Galw i Mewn' o hyn ymlaen yn symud i Orsaf yr Heddlu ym Mhenygroes. Cafwyd addewid y byddai'r Plismon Cymunedol yn neilltuo tair awr dri gwaith y mis i ofynion y Cyngor Cymuned. Mae'r Heddlu am weithio gyda thrigolion y gymuned i lanhau agweddau o'r gymuned – ee poteli wedi malu, baw cwn ayyb er mwyn rhoi enghraifft gadarnhaol i bobl er mwyn ceisio gostwng y nifer o droseddau. Roedd y Cyngor yn gofyn am fwy o bresenoldeb ar ben-wythnosau er mwyn trio 'osgoi' problemau yn lle 'datrys'. Roedd pryder bod yr ardal a wasaneithir gan Gwyn yn 24 o bentrefi, a bod hyn yn ardal rhy fawr, ac nad yw ychwaith yn deg mai dim ond bob yn ail pythefnos mae'r heddwys yn cael y defnydd o gar. Cytunodd y Cyngor i Gwyn e-bostio Prif Arolygydd Plismona Cymunedol, Gareth Wynne gyda'r pryderon yma. Gofynwyd i Gwyn beth oedd sefyllfa'r tir ym Mhenygroes a gynigywd ar gyfer cael parc i bobl ifanc. Dywedodd fod y tir dal ar gael, ond ddim yn siwr am ba hyd. Angen sefydlu pwyllgor i symud pethau ymlaen, er mwyn cael cynlluniau pendant a chefnogaeth pobl leol ar y pwyllgor.

Arwyddion 'Dim Cwn' wedi eu gosod ar giatau'r mynwentydd, ond y Cyngor yn dal i ddisgwyl am arwydd yng nghae chwarae Cwting. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd eto am hyn.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- *6 Stad Tan y Coed, Penygroes – trosi rhan o fflat llawr gwaelod i gynnwys fflat ychwanegol. Gwrthwynebu, ar sail diffyg lle parcio a cynydd traffic.
- *21 Tai Nantlle, Nantlle – Estyniad deulawr cefn. Dim gwrthwynebiad.
- *Bronydd, Ffordd Llwyndu, Penygroes – estyniad unllawr cefn. Cymeradwyo.

Caniatawyd cais i godi decking yn 40 Ffordd Coed Madog, Talysarn.

Derbyniwyd llythyrau gan Gyngor Gwynedd yn ymateb i ymholiadau'r Cyngor Cymuned am broblemau parcio anghyfreithlon ym Mhenygroes.

Hefyd, derbyniwyd llythyr yn ein hysbysu bod Cyngor Gwynedd yn edrych i wella'r llwybr o Povey's i Wynnstay, Penygroes.

Bydd Cyngor Gwynedd yn gosod mesuryddion cyflymdra traffig yn Nantlle yn dilyn cwyn gan y Cyngor Cymuned am gor yrru.

Rydym hefyd wedi gofyn i Gyngor Gwynedd am dar-mac ar y llecyn gwyrdd yn Ffordd Clynnog, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio gan yrrwyr i droi'n ol.

Bydd Cyngor Gwynedd yn ymgynghori a thrigolion am faterion traffic ar Ffordd Llwyndu, Penygroes.

Byddwn yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn os oes bwriad i godi'r nifer o dai o dai o 80 o 104 i Benygroes o dan y Cynllun Unedol newydd. Os OES bwriad, yna byddwn yn gofyn ar ba sail, ac hefyd dylid egluro i'r datblygwr bod cyfrifoldeb arno am yr Ysgol, a'r lon.

Archwilio Cerrig Beddi – o Archwiliad o bloc G yn MacPelah, Penygroes, darganfyddwyd bod 22 o gerrig angen sylw. Bydd angen trio cysylltu gyda'r teuluoedd, ond pryder y Cyngor oedd beth pe tai'r Cyngor yn methu dod o hyd i deulu. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu ag Un Llais am arweiniad.

Bydd y Cyngor yn trefnu **Cystadleuaeth Garddio** eto eleni, gan drefnu beirniadaeth o'r gerddi fis Gorffennaf. Bydd y Cyngor yn ystyried cael categorïau ar gyfer gerddi bach, a gerddi mawr.

Penderfynwyd gofyn i PC Gwyn Hughes edrych ar 1. Gor-yrru Talysarn/Penygroes a Llanllyfni/Penygroes; 2. Baw cwn Trim Trac/Gloddfa Glai Talysarn y mis yma.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn llythyr gan Alun Ffred AS, yn gofyn i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth am ddiffyg argaeledd Band Eang (Broadband) yn y Dyffryn. Byddwn yn ddiolchgar iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth i'w basio ymlaen iddo. Gellir cysylltu a'r Cyngorwyr yn uniongyrchol, neu gysylltu gyda Clerc y Cyngor ar 01286 660644.